Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 2 Chwefror 2012**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Llinos Dafydd**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8403
HSCCommittee@wales.gov.uk


## Agenda

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2. Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) - Briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru (09.30 - 10.15)** (Tudalen 1)
HSC(4)-04-12 papur 1

David Worthington, yr Uwch Swyddog Cyfrifol am y Bil
Chris Brereton, Dirprwy Brif Gynghorydd Iechyd yr Amgylchedd
Rob Wilkins, yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Chris Humphreys, Cyfreithiwr

Egwyl 10.15 - 10.25

**3. Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn - Trafod y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd (10.25 - 10.55)** (Tudalennau 2 - 7)
HSC(4)-04-12 papur 2

**4. Blaenraglen waith - Trafodaeth ynghylch sesiynau tystiolaeth un-tro (10.55 - 11.15)** (Tudalennau 8 - 14)
HSC(4)-04-12 papur 3

**5. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 15 - 16)
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr

HSC(4)-02-12 Cofnodion

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - P-04-318 Gwasanaethau Mamolaeth Trawsffiniol** (Tudalennau 17 - 18)
HSC(4)-04-12 papur 4

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 ac ar 8 Chwefror (11.15)

## 7. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Trafod y prif faterion (11.15 - 11.45)

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-04-12 papur 1**

**Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**

Gweler ynglwm linc i'r Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) a'r dogfennau cysylltiedig.

**Dogfen ymgynghori**
http://wales.gov.uk/docs/phhs/consultation/111214consultationcy.pdf

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft**
http://wales.gov.uk/docs/phhs/consultation/111214impactcy.pdf

**Bil Drafft**
http://wales.gov.uk/docs/phhs/consultation/111214billcy.pdf

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-04-12 papur 2**

**Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn: ymgysylltiad allanol**

| | |
|---|---|
| **At:** | Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Gan:** | Gwasanaeth y Pwyllgorau |
| **Dyddiad cyfarfod:** | 2 Chwefror 2012 |

**Cefndir**

1. Bydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2012. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad ynghlwm yn Atodiad A.

2. I sicrhau bod y Pwyllgor yn clywed barn defnyddwyr presennol y gwasanaethau, a darpar ddefnyddwyr, am y gofal preswyl a gynigir i bobl hŷn, mae'r Pwyllgor wedi nodi ei fod yn dymuno ymgysylltu â chynifer â phosibl.

**Diben**

3. Er bod y dulliau traddodiadol o gasglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar yn ddefnyddiol iawn pan fydd pwyllgorau'n cynnal ymchwiliadau, mae'n aml yn anodd cyrraedd y rheini nad ydynt o reidrwydd yn rhan o'r trafodaethau am ddatblygu gwasanaethau, ond sydd â phrofiad uniongyrchol ohonynt.

4. Diben y trefniadau i ymgysylltu'n allanol a gynigir yn y papur hwn yw sicrhau bod sylwadau a phrofiadau'r rhai sy'n cael gofal preswyl ar hyn o bryd, neu sy'n debygol o gael gofal preswyl yn y dyfodol – gan gynnwys perthnasau a'r rhai sy'n gofalu'n broffesiynol neu'r wirfoddol am bobl hŷn – yn cael eu cynnwys yn ymchwiliad y Pwyllgor i'r mater hwn.

5. Rydym yn chwilio am gymorth corff sydd â'r gallu a'r arbenigedd i hwyluso'r broses o ymgysylltu ymhellach â sectorau allweddol ym maes gofal preswyl, i gyflawni'r rôl a amlinellir yn y papur hwn.

**Dulliau o ymgysylltu**

6. Er mwyn clywed amrywiaeth eang o sylwadau gan ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau gofal, rydym yn bwriadu penodi hwylusydd i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gwaith a ganlyn:
   (i) sefydlu a hwyluso grŵp cyfeirio allanol;
   (ii) hwyluso gwaith ymgysylltu ychwanegol.

**(i) Sefydlu a hwyluso grŵp cyfeirio allanol**

*Rôl a chyfansoddiad y grŵp*

7. Rôl y grŵp cyfeirio allanol fydd cyflwyno'i safbwynt i'r Pwyllgor am y dystiolaeth ffurfiol a gyflwynir fel rhan o'r ymchwiliad, gan ystyried profiadau a safbwyntiau amrywiol aelodau'r grŵp cyfeirio.

8. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cynnwys cysgodi ymchwiliad y Pwyllgor drwy:

   - dderbyn, ystyried a thrafod y dystiolaeth lafar a gaiff y Pwyllgor (gan gyfarfod tua mis ar ôl y Pwyllgor bob tro);

   - cyflwyno sylwadau'r grŵp ar y prif faterion a godir yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys i ba raddau y mae aelodau'r grŵp yn teimlo bod:

     i. y wybodaeth a gyflwynir yn adlewyrchu eu profiadau'u hunain; a

     ii. polisi yn datblygu mewn ffordd y maent yn cyd-fynd â hi;

   - cyfarfod â'r Pwyllgor o dro i dro i drafod y themâu sy'n datblygu;

   - cyflwyno cwestiynau y mae'r grŵp yn teimlo y dylai'r Pwyllgor eu gofyn i dystion yn ystod yr ymchwiliad;

   - gwrando ar ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor a mynegi barn.

9. Mae'r Pwyllgor yn chwilio am grŵp sy'n cynnwys 5-10 o aelodau'r cyhoedd. C**yhyd ag y bo hynny'n ymarferol bosibl**, bydd aelodau'r grŵp cyfeirio'n cynrychioli pob cam o'r llwybr gofal preswyl, gan gynnwys:

- unigolion – neu deulu'r unigolion hynny – nad ydynt yn cael gofal preswyl eto, ond sy'n ystyried y posibilrwydd hwnnw;

- teulu'r rhai sy'n cael gofal preswyl neu sy'n wynebu'r posibilrwydd  hwnnw;

- pobl sy'n gofalu'n wirfoddol neu'n broffesiynol.

10. Oherwydd problemau hygyrchedd, rydym yn syweddoli na fydd y grŵp cyfeirio, o bosibl, yn cynnwys y preswylwyr eu hunain, ond bydd yn cynnwys: gofalwyr, aelodau'r teulu; pobl sy'n cychwyn ar y llwybr gofal preswyl. Rydym yn rhagweld y bydd modd defnyddio'r dulliau ymgysylltu eraill a restrir yn ddiweddarach yn y papur hwn i sicrhau bod y Pwyllgor yn cyrraedd y preswylwyr hynny sy'n awyddus i rannu'u profiadau gyda'r Aelodau.

11. Dylai aelodau'r grŵp hefyd, **cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol bosibl**, gynrychioli gwahanol anghenion pobl hŷn sy'n cael gofal preswyl – neu'n sy'n wynebu'r posibilrwydd hwnnw, gan gynnwys eu hanghenion diwylliannol, ieithyddol, daearyddol, corfforol a meddyliol.

*Rôl yr hwylusydd*

12. Bydd disgwyl i'r hwylusydd sefydlu grŵp gorchwyl yn unol â'r gofynion a restrir ym mharagraffau 7 – 11 o'r papur hwn. Bydd disgwyl i'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd, tra bydd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.

13. Bydd disgwyl i'r hwylusydd gynorthwyo'r grŵp cyfeirio drwy:

    - sicrhau bod holl aelodau arfaethedig y grŵp yn deall rôl y grŵp yn ymchwiliad y Pwyllgor a'r amser y bydd yn rhaid iddynt ei roi i'r gwaith;

    - sicrhau bod y grŵp yn cael gwybodaeth hygyrch, glir a rheolaidd am y dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor;

    - trefnu cyfleoedd i'r grŵp drafod eu safbwyntiau (yn y modd mwyaf addas i'r aelodau) am y wybodaeth a gyflwynir yn ystod yr ymchwiliad;

    - hwyluso trafodaethau'r grŵp (heb gymryd rhan yn y trafodaethau hynny) drwy gydweithio ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor i nodi'r cwestiynau a'r themâu allweddol i'r grŵp eu hystyried;

- cymryd cyfrifoldeb dros gyfleu sylwadau a chasgliadau'r grŵp i aelodau'r Pwyllgor, a nodi unrhyw gwestiynau y mae'r grŵp am i'r Pwyllgor eu gofyn, gan wneud hynny drwy roi atborth ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn rheolaidd;

- trefnu cyfarfodydd o dro i dro gyda'r Pwyllgor ar adegau perthnasol (yn y modd mwyaf ymarferol i'r grŵp) i drafod y themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr ymchwiliad;

- hwyluso trefniadau i'r grŵp drafod ac asesu casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor;

- sicrhau bod y grŵp yn cael gwybod am ganlyniadau'r ymchwiliad ac am y modd y defnyddiwyd eu cyfraniadau nhw;

- arfarnu'r gwaith y bydd y Pwyllgor yn ei wneud yng nghyswllt y grŵp cyfeirio, yn enwedig o safbwynt y grŵp.

**(ii) Gwaith ymgysylltu ychwanegol**

14. Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymgysylltu'n eang, cynigir ein bod yn cymryd y camau ychwanegol a ganlyn:

    - nifer o ymweliadau personol ag unigolion mewn gofal preswyl;
    - yr aelodau i ymweld â grwpiau lleol;
    - ymweliadau anffurfiol â'r gwahanol fathau o gartrefi gofal sydd ar gael.

15. Bydd disgwyl i'r hwylusydd a benodir gynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni'r uchod, mewn cydweithrediad â staff y Cynulliad, drwy:

- drefnu nifer o ymweliadau personol â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Wrth drefnu'r ymweliadau hyn, rhagwelir y bydd yr hwylusydd yn gwneud rhywfaint o waith paratoadol gyda'r preswylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut fath o wybodaeth y bydd ei hangen ar yr Aelodau;

- gweithio gyda staff y Cynulliad i nodi nifer o grwpiau lleol a allai gyfarfod yn anffurfiol â'r Pwyllgor.

## Amseru

16. Trefnwyd i'r ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru gael ei gynnal rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2012.

17. Gobeithio y gall y gwaith ymgysylltu allanol fod yn broses barhaus drwy gydol yr ymchwiliad. Bydd amser a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei ddefnyddio i gynnal ymweliadau a chyfarfodydd.

18. Caiff y grŵp cyfeirio'i sefydlu yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2012 tra bydd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo, a bydd yn cyfarfod am y tro cyntaf tua mis wedi i'r Pwyllgor ddechrau casglu tystiolaeth.

19. Gan y bydd disgwyl i'r grŵp cyfeirio gydredeg ag ymchwiliad y Pwyllgor, rhagwelir y bydd y grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd (dair neu bedair gwaith yn ystod yr ymchwiliad) i drafod eu sylwadau. Mae'n bosibl y bydd angen i'r grŵp gyfarfod unwaith neu ddwy gyda'r Pwyllgor hefyd.

20. Bydd disgwyl i aelodau'r grŵp deithio, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol.

## Hwyluswyr posibl

21. Mae'r Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â chyrff posibl ynglŷn â rôl yr hwylusydd. Yn ystod y trafodaethau hyn, cynigiwyd y gallai Age Cymru a Gofal Croesffyrdd gydweithredu i ymdrin â'r holl fanylebau neu'r rhan fwyaf ohonynt.

22. Yn ddibynol ar gytundeb y Pwyllgor, caiff yr hwylusydd ei benodi'n unol â Rheol Sefydlog 17.55 sy'n darparu ar gyfer penodi cynghorwyr arbenigol i gynorthwyo'r Pwyllgorau.

## Camau i'w cymryd

23. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a chytuno ar:

    i. y gwaith ymgysylltu arfaethedig a amlinellir yn y papur hwn (paragraffau 7-15); a

    ii. penodi Age Cymru a Gofal Croesffyrdd i gydweithredu i hwyluso'r gwaith hwn (paragraffau 21-22).

## ATODIAD A – Cylch gorchwyl

Bydd yr ymchwiliad yn archwilio gwasanaethau gofal preswyl yng Nghymru a'r modd y gallant ddiwallu anghenion pobl hŷn ar hyn o bryd, a'u hanghenion yn y dyfodol, gan gynnwys:

- y broses sy'n arwain pobl hŷn i dderbyn gofal preswyl, y gwasanaethau eraill sydd ar gael yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau ail-alluogi a gofal yn y cartref, a pha mor hawdd yw hi i bobl gael y gwasanaethau hynny.

- gallu'r sector gofal preswyl i fodloni'r galw am wasanaethau gan bobl hŷn o ran adnoddau staffio, gan gynnwys y sgiliau sydd gan staff a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt, nifer y lleoedd a'r cyfleusterau, a lefel yr adnoddau.

- safon gwasanaethau gofal preswyl a phrofiadau defnyddwyr y gwasanaethau a'u teuluoedd; effeithiolrwydd gwasanaethau o ran diwallu amrywiol anghenion ymhlith pobl hŷn; a rheoli'r broses o gau cartrefi gofal.

- effeithiolrwydd trefniadau rheoleiddio ac arolygu gofal preswyl, gan gynnwys y posibilrwydd o graffu'n fanylach ar sefyllfa ariannol darparwyr gwasanaethau.

- enghreifftiau newydd o ddarparu gofal

- y cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth yn y sector cyhoeddus ac yn y sector annibynnol, a'r gwahanol ddulliau o ariannu, rheoli a pherchenogi gwasanaethau gofal, fel y rheini a gynigir gan y sector cydweithredol a chydfuddiannol, y trydydd sector, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

## Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-04-12 papur 3**

**Blaenraglen waith - Trafodaeth ynghylch sesiynau tystiolaeth un-tro**

| | |
|---|---|
| **At:** | Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Gan:** | Gwasanaeth y Pwyllgorau |
| **Dyddiad cyfarfod:** | 2 Chwefror 2012 |

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2012, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mewn egwyddor, i drefnu cyfres o sesiynau tystiolaeth un-tro yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf.

2. Diben y sesiynau tystiolaeth un-tro yma yw caniatau i'r Pwyllgor ystyried pynciau heblaw gofal preswyl i bobl hŷn, sef prif ymchwiliad y Pwyllgor o Chwefror i Orffennaf 2012.

**Pynciau i'w hystyried**

3. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi darparu papur yn amlinellu opsiynau posib ar gyfer y sesiynau un-tro arfaethedig. Atodir hwn fel atodiad A.

4. Efallai yr hoffai Aelodau awgrymu pynciau ychwanegol i'r rheini a nodir yn Atodiad A.

5. Oherwydd amserlen y Pwyllgor ar gyfer casglu tystiolaeth lafar ar ei ymchwiliad ar ofal preswyl i bobl hŷn, a'r angen i gadw hyblygrwydd ym mlaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer ystyried deddfwriaeth, cynghorir Aelodau i ddewis pedwar pwnc ar y mwyaf i'w hystyried ymhellach.

**Camau i'w cymryd**

6. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a chytuno ar bynciau ar gyfer sesiynau tystiolaeth un-tro yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Cyfeirnod y Pwyllgor: HSC(4)-04-12

# Atodiad A

# Y Pwyllgor Iechyd  a Gofal Cymdeithasol

## Blaenraglen waith

---

**Dyddiad y sesiwn:** **2 Chwefror 2012**

**Cyflwyniad**

Diben y papur hwn yw darparu gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wneud penderfyniadau wrth gwmpasu ymchwiliadau byr yn y dyfodol.

**Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Victoria Paris yn  y Gwasanaeth Ymchwil**
**Estyniad 8678**
**E-bost: victoria.paris@wales.gov.uk**

Research Service

## Cylch Gwaith y Pwyllgor

Rôl y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw ystyried materion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth, polisi a deddfwriaeth o fewn ei gylch gwaith. Rhestrir prif feysydd cyfrifoldeb y Gweinidog sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor isod.

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Gofal cymdeithasol
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Iechyd y cyhoedd a diogelu'r cyhoedd
- Gwella iechyd
- Gofalwyr
- Gweithgareddau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Cymhorthion, addasiadau a chymorth yn y cartref
- Byw'n Annibynnol
- Gofal yn y gymuned
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Diogelwch bwyd
- Gwasanaeth iechyd y Gwasanaeth Carchardai
- Rheoleiddio lleoliadau preswyl a chartref i oedolion
- Ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Materion polisi perthnasol yr UE

Hyd yma y tymor hwn, mae'r Pwyllgor wedi cwblhau'r gwaith canlynol:

### Ymchwiliadau

Ymchwiliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu **gwasanaethau i leihau'r risg o strôc** ac effeithiolrwydd polisïau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael ag unrhyw wendidau yn y gwasanaethau hyn - cwblhawyd fis Rhagfyr 2011

Sesiwn dystiolaeth ar oblygiadau **toiledau cyhoeddus annigonol** i iechyd y cyhoedd – yn parhau

Ymchwiliad i effeithiolrwydd y contract Fferylliaeth Gymunedol o ran gwella cyfraniadau **fferylliaeth gymunedol** i wasanaeth iechyd a lles - yn parhau

Ymchwiliad i'r ddarpariaeth **gofal preswyl yng Nghymru** a sut y gall fodloni anghenion presennol pobl hŷn a'u hanghenion yn y dyfodol – yn parhau

## Deddfwriaeth

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r datblygiadau deddfwriaethol canlynol:

***Bil Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)***: cyhoeddwyd y Bil drafft a'r papur ymgynghori gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2011. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Mawrth 2012.

***Bil Rhoi Organau (Cymru)***: cyhoeddwyd y Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ar 8 Tachwedd 2011. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Ionawr 2012.

***Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)***: caiff ymgynghoriad cyhoeddus ei lansio fis Mawrth 2012 gyda'r nod o gyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fis Hydref 2012. Caiff Rheoliadau a Chod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol eu datblygu ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

***Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)***: bwriedir cyhoeddi ymgynghoriad yn 2012.

## Ymchwiliadau posibl: gallai unrhyw un o'r pynciau canlynol fod yn destun ymchwiliad amserol i'r Pwyllgor.

| Teitl | Pwnc |
|---|---|
| **Anghydradd-oldebau iechyd** | Fis Mawrth 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad yn dwyn y teitl ***Pa mor deg yw Cymru?*** a oedd yn galw am leihau'r anghydraddoldebau iechyd rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol, yn arbennig y rhai sy'n effeithio ar ddynion hŷn a dynion iau. Yn ***Rhaglen Lywodraethu 2011-2016*** nodir y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r camau sydd yn ei phapur gwaith technegol ***Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb*** ar waith er mwyn atal iechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd.<br><br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried y cynnydd a wneir o ran rhoi'r camau yn y cynlluniau gweithredu strategol ym maes iechyd ar waith a sut y mae hyn yn lleihau anghydraddoldebau rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.** |
| **Amseroedd aros am gadeiriau olwyn yng Nghymru** | Fis Mai 2010 cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol bryd hynny ***Adroddiad ar Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru***. Cynhaliwyd yr ymchwiliad o ganlyniad i feirniadaeth o effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn o ran diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaethau, a'r ffaith bod amseroedd aros am asesiad a darpariaeth yn bryder penodol. Cyhoeddwyd *Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd - Cam 2* fis Hydref 2010 ac yn sgil hynny dyrannwyd £2.2m o gyllid rheolaidd ychwanegol yn y gyllideb ddrafft er mwyn helpu i weithredu canfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad, ac yn benodol er mwyn sicrhau bod y safonau'n ymwneud ag amseroedd aros yn Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc yn cael eu cyrraedd erbyn mis Mawrth 2012.[1] Fis Mawrth 2011 sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Cymru Gyfan y Gwasanaeth Ystum a Symudedd, fel Grŵp Cynghori ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), i weithredu argymhellion yr Adolygiad.<br><br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor adolygu'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y cyn Bwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol mewn perthynas ag amseroedd aros am gadeiriau olwyn, yr argymhellion yn adroddiad *Adolygiad Cymru Gyfan o Ystum a Symudedd - Cam 2,* a'r cynnydd a wneir o ran cyrraedd y safon amseroedd aros erbyn Mawrth 2012.** |

[1] Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Cyd-bwyllgor, ***Gwasanaeth Ystum a Symudedd Cymru Gyfan, Eitem 15 ar yr Agenda***, 29 Tachwedd 2011 [darllenwyd 23 Ionawr 2012]

| | |
|---|---|
| **Cyd-ymatebwyr** | Codwyd pryderon nad yw gwasanaethau cyd-ymatebwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol.<br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ymchwilio i'r defnydd o wasanaethau cyd-ymatebwyr ledled Cymru; y math o alwadau y mae cyd-ymatebwyr yn ymdrin â hwy ar hyn o bryd; effeithiolrwydd clinigol; y potensial i arbed costau; a'r amseroedd ymateb targed.** |
| **Atal thrombo-emboledd gwythiennol** | Mae emboledd yn yr ysgyfaint ar ôl thrombosis gwythiennau dwfn ymysg cleifion sydd wedi'u derbyn i'r ysbyty yn achosi rhwng 25,000 a 32,000 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU.[2] Fis Chwefror 2005 cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin adroddiad yn dwyn y teitl ***The Prevention of Venous Thromboembolism in Hospitalised Patients***. Fis Ionawr 2010 cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ganllawiau clinigol ar leihau'r risg o thromboemboledd gwythiennol: ***CG92 - Reducing the risk of venous thromboembolism (deep vein thrombosis and pulmonary embolism) in patients admitted to hospital*** Yn y canllawiau rhoddir cyngor yn seiliedig ar arferion gorau ar leihau'r risg o thromboemboledd gwythiennol (VTE) ymysg cleifion a dderbynnir i'r ysbyty.<br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ymchwilio i sut y gweithredir canllawiau NICE ledled Cymru ac i waith 1000 o Fywydau a Mwy ar atal VTE.** |
| **Lleihad mewn symudiad-au'r ffetws** | Fis Mawrth 2008 cyhoeddodd NICE ganllawiau clinigol ar ofal cynenedigol: ***Antenatal care: routine care for the healthy pregnant woman***. Fis Chwefror 2011 cyhoeddodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) gyngor newydd i glinigwyr ar reoli menywod sy'n profi ***Lleihad mewn Symudiadau'r Ffetws*** (RFM) yn ystod beichiogrwydd, ac mae'n cynnig argymhellion ynghylch sut i reoli menywod ag RFM yn y gymuned ac mewn ysbytai.<br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ymchwilio i sut y gweithredir canllawiau NICE a RCOG ledled Cymru a'r gwasanaethau a gaiff menywod beichiog mewn perthynas ag RFM yn y gymuned ac mewn ysbytai.** |
| **Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD)** | Fis Chwefror 2011 cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y pryd ei **Adroddiad ar Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog.** Yn 2010 roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau cyflwyno gwasanaeth iechyd meddwl a lles arbenigol i gyn-filwyr yn dilyn cynllun peilot yng Nghaerdydd a'r Fro. Yn yr adroddiad gwnaethpwyd argymhelliad ar wella'r broses o gasglu data ar nifer yr achosion o PTSD; codi ymwybyddiaeth o PTSD ymysg cyn-filwyr a'u teuluoedd; gwella mynediad i wasanaethau camddefnyddio sylweddau i |

[2] Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin, HC99, ***The Prevention of Venous Thromboembolism in Hospitalised Patients***, Chwefror 2005 [darllenwyd 23 Ionawr 2012]

| | |
|---|---|
| | gyn-filwyr â PTSD; a throsglwyddo hanes meddygol o'r lluoedd arfog i bractisau meddygon teulu. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) yn cynnal adolygiad o ddigonolrwydd, argaeledd a hygyrchedd darpariaeth y GIG i bersonél y Lluoedd Arfog, eu teuluoedd a chyn-filwyr yng Nghymru. Dechreuodd yr Adolygiad ddydd Gwener 9 Rhagfyr 2011 a bydd yn parhau hyd 20 Chwefror 2012. Bydd adroddiad ar y canfyddiadau'n cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru fis Ebrill 2012. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi cyhoeddi y bydd yn cynnal ymchwiliad i Gymorth i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog yng Nghymru, a fydd yn edrych ar gydgysylltu trawsffiniol a'r modd y mae'n effeithio ar gyn-filwyr, a'r cydgysylltu rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig oedd 18 Tachwedd 2011 ac mae'n debygol y bydd y sesiynau casglu tystiolaeth lafar yn dechrau fis Chwefror 2012.<br><br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor edrych ar y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y cyn Bwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar PTSD ac, wedi iddynt gael eu cwblhau, yr adroddiadau a'r argymhellion a wneir gan HIW a'r Pwyllgor Materion Cymreig mewn perthynas â PTSD.** |
| **Amseroedd aros am wasanaeth-au orthopedig** | Fis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny, Edwina Hart AC, ddatganiad ar amseroedd aros am wasanaethau orthopedig. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r gwaith yn dechrau ar ddatblygu cynlluniau i gynyddu capasiti orthopedig, ac ym mis Mawrth 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad ychwanegol o £65 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gwtogi amseroedd aros am wasanaethau orthopedig yng Nghymru. Fis Gorffennaf 2011 dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths AC, fod arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu atebion cynaliadwy i gynyddu capasiti ac i leihau'r galw am wasanaethau orthopedig ac erbyn mis Mawrth 2012 na ddylai neb fod yn aros mwy na 36 o wythnosau. Mae cynlluniau ar waith i gynyddu capasiti, yn cynnwys adeiladu dwy theatr fodiwlaidd yn y gogledd, a fydd yn cyflogi meddygon ymgynghorol ychwanegol. Yn y de, mae BILlau yn ymchwilio i ffyrdd arloesol o leihau'r galw ledled y Rhanbarth.<br><br>**Efallai yr hoffai'r Pwyllgor adolygu cyflawniad BILlau o ran y targedau amser aros; y defnydd o gyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru; ac effeithiolrwydd y cynlluniau i gynyddu capasiti a lleihau'r galw.** |

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 19 Ionawr 2012** |
| Amser: | **09:30 - 11:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_19_01_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Mike Bone, Cymdeithas Doiledau Prydain**<br>**Chris Brereton, Llywodraeth Cymru**<br>**Graeme Francis, Age Cymru**<br>**Dr Sara Hayes, Llywodraeth Cymru**<br>**Louise Hughes, y prif ddeisebydd, P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus**<br>**Gillian Kemp, Y Gymdeithas Syndrom Coluddyn Llidus**<br>**Karen Logan, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan**<br>**John Vincent, Senedd Pobl Hŷn Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Catherine Hunt (Clerc)**<br>**Mike Lewis (Dirprwy Glerc)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar AC. Nid oedd neb yn dirprwyo.

## 2. Goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus - tystiolaeth lafar

2.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus.

## 3. Goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus - tystiolaeth lafar

3.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar oblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus.

## 4. Goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus - tystiolaeth lafar

4.1 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar oblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am wybodaeth am nifer y toiledau cyhoeddus sydd yng Nghymru ar hyn o bryd o gymharu â 10 mlynedd yn ôl.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, gan ddarparu crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd ynghylch goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus, er mwyn awgrymu y gallai'r Pwyllgor hwnnw ystyried y ddarpariaeth o gyfleusterau.

4.4 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal rhagor o sesiynau tystiolaeth undydd ar faterion priodol.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar wasanaethau newyddenedigol.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am wybodaeth bellach gan swyddogion Llywodraeth Cymru am y grwpiau gwahanol yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y Papur Gwyn ar roi organau.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

**Y Pwyllgor Deisebau**
**Petitions Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mark Drakeford AM
Chair, Health and Social Care Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Our ref: P-04-318

12 January 2012

Dear Mark

**Petition: Cross-border Maternity Services**

The Petitions Committee considered the following petition at its meeting of 10 January:

*'We, the undersigned, note the proposal to move the consultant-led maternity unit, neonatal intensive care unit and child inpatient unit from the Royal Shrewsbury Hospital (RSH) to the Princess Royal Hospital (PRH) at Telford.*

*We believe this would cause a great deal of hardship and stress for patients and their families travelling from Montgomeryshire. It would add an extra twenty minutes onto a journey which is already fifty minutes at best and ambulance response times will inevitably be significantly increased.*

*It is vital that these proposals are not considered in isolation to proposals in Wales and that the Welsh Government adopts a strategic approach to cross border health issues, to ensure that the needs of patients from Mid Wales are fully represented in any proposals at catchment hospitals.*

*We therefore call on the National Assembly to urge the Welsh Government to fully engage in the 'Keeping it in the County' consultation process, to ensure that patients from Mid Wales are not disadvantaged by any changes.'*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost / Email:petition@wales.gov.uk

The Minister has informed the Committee that Powys Teaching Health Board is reviewing its maternity services and developing a local delivery plan in light of Shrewsbury and Telford Hospital NHS Trust's decision to move services from the Royal Shrewsbury Hospital to the Princess Royal Hospital at Telford.

The Committee agreed to write to ask whether the Health and Social Care Committee would consider keeping this issue under review.

Thank you for your consideration of this petition. I look forward to your response.

Yours sincerely,

William.

**William Powell AM**
**Chair, Petitions Committee**